

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
GYNHALIWYD YN Y NEUADD 3 MAWRTH 2022 AM 7.30YH**

1. Yn bresennol Y Cyng Elfyn Williams (Cadeirydd), Meinir James, Janet Knott, Rheinallt Jones, Eifion Jones, Philip Davies, Shan Rees, Richard John, Nicola Jones ac Arfon Davies (Clerc).

Ymddiheuriadau: Viv Davies.

Nododd y Cadeirydd fod meddyliau'r Cyngor gyda phobl yr Wcrain yn ystod y gwrthdaro presennol yn y wlad honno.

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 3ydd Chwefror 2022.

4. Materion yn codi

- 1. Diogelwch ffyrdd ar gyffordd Llandyfaelog gyda'r A484** – Roedd y Cyngor yn aros am ddyddiad ar gyfer ymweliad safle gyda'r Adran Goleuadau Cyhoeddus o Gyngor Sir Caerfyrddin i drafod prosiect gwella ar gyfer y gyffordd. Bydd y Clerc yn cysylltu â Swyddog y Cyngor Sir sy'n gyfrifol am y cyswllt rhwng Cyngorau Cymuned a'r Cyngor Sir i ofyn iddi godi'r mater.
- 2. Pryder am gyflymderau traffig ar hyd Heol y Lan** – Roedd y Cyngor yn aros am ddarpariad canlyniadau'r monitro cyflymder ar gyfer y lleoliad. Bydd y Clerc yn cysylltu â Swyddog y Cyngor Sir sy'n gyfrifol am y cyswllt rhwng Cyngorau Cymuned a'r Cyngor Sir i ofyn iddi godi'r mater.
- 3. Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Cadarnhaodd y Cyngor Sir fod y prosiect yn rhan o brosiect ehangach sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ond nid oedd dyddiad ar gyfer gwneud y gwaith hwn. Nodwyd.
- 4. Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth** – Nododd y Clerc bod y cais wedi ei wrthod a bod y mater nawr i gael ei ystyried gan y Tîm Gorfodaeth Cynllunio. Nodwyd.
- 5. Terfyn cyflymder 30mya ym Mhentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad ar y mater. Bydd y Clerc yn cysylltu â Swyddog y Cyngor Sir sy'n gyfrifol am y cyswllt rhwng Cyngorau Cymuned a'r Cyngor Sir i ofyn iddi godi'r mater.
- 6. Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog** - Cadarnhawyd bod ymweliadau pellach wedi'u cynnal ac ni nodwyd unrhyw broblemau. Nodwyd hyn, ond teimlwyd bod yr ymweliadau wedi'u cynnal eto ar yr amser anghywir o'r dydd.
- 7. Archwiliad o Gyfrifon Ariannol y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2021** – Derbyniodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2021 ar ôl cwblhau archwiliad blynyddol gan Archwilio Cymru. Derbyniwyd archwiliad diamod a bydd nawr yn cael ei hysbysebu ar wefan a hysbysfyddau'r Cyngor. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith gyda threfniadau ariannol y Cyngor.
- 8. Materion traffig yng Nghroesyceiliog** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Bydd y Clerc yn cysylltu â Swyddog y

Cyngor Sir sy'n gyfrifol am y cyswllt rhwng Cyngorau Cymuned a'r Cyngor Sir i ofyn iddi godi'r mater.

9. **Dŵr yn rhedeg i Landyfaelog o'r briffordd yn achosi llifogydd** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
10. **Gwelliannau i arwyddion yng Nghloigyn** - Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau fod gyd o'r gwaith wedi'u gwblhau. Nodwyd.
11. **PL/02474** – Roedd yr adroddiad gofynnol gan yr ymgeisydd yn cael ei aros.
12. **FC29/24 – Nantllan** – Roedd yr Adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi cadarnhau bod y gwaith atgyweirio wedi ei gofnodi ar y system. Nodwyd.
13. **FC29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am wybodaeth ar y mater.
14. **Golau Solar yn Idole** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad ar y mater. Bydd y Clerc yn cysylltu â Swyddog y Cyngor Sir sy'n gyfrifol am y cyswllt rhwng Cyngorau Cymuned a'r Cyngor Sir i ofyn iddi godi'r mater.
15. **Cinio Blynyddol y Cyngor** – Cytunwyd byddai Cinio Blynyddol y Cyngor yn cael ei gynnal ar 29ain Ebrill yng Nghlwb Golff Caerfyrddin gyda phryd o fwyd carferi.

5. Gohebiaeth

1. **Dŵr Cymru** - Cyn-ymgyngoriad ar y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft 2024. Nodwyd.
2. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cais am wybodaeth ar flaenoriaethau cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus y Cyngor. Nodwyd bod y blaenoriaethau wedi'u cyfyngu i 5% o'r rhwydwaith o fewn y Gymuned (1.17CM) ac fod y llwybrau hynny sydd wedi'u cynnwys yn Llwybr Arfordir Cymru eisoes wedi'u cynnwys. Felly cytunwyd i ofyn am gynnwys FC 29/4 o Bentrepoeth i Croesyceiliog.
3. **Will Lister, Preswylfa, Llandyfaelog** – Cais am fynediad i Faes Parcio Neuadd Gymunedol Llandyfaelog, yn gofyn am ystyried caniatáu man parcio dynodedig ar gyfer llety gwyliau'r eiddo a chaniatáu creu mynediad yn wal y maes parcio. Roedd Pwyllgor y Neuadd wedi anfon y cais ymlaen at y Cyngor Cymuned i'w ystyried fel ymddiriedolwr gwarchod y Neuadd. Yn dilyn trafodaeth ac ystyriaeth o'r materion oedd yn codi cytunwyd i argymhell i Bwyllgor y Neuadd fod y cais yn cael ei wrthod.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Gwybodaeth am Addewid Etholiad Teg a Pharchus CLILC ar gyfer etholiadau Cyngorau Lleol mis Mai. Nodwyd.
5. **Cyngor Iechyd Cymunedol Hywel Dda** – Cylchlythyr Chwefror. Nodwyd.
6. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth i dirfeddianwyr ar y Côt Cefn Gwlad newydd. Nodwyd.
7. **Un Llais Cymru** – Adroddiad ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar drefniadau o dan Adran 47 ar gyfer Cyfarfodydd Aml-leoliad. Nodwyd.
8. **Un Llais Cymru** – Digwyddiadau hyfforddi mis Chwefror. Nodwyd.
9. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am wenoliaid. Roedd y Clerc wedi gosod y manylion ar wefan y Cyngor. Nodwyd.
10. **Llywodraeth Cymru** - Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar sut i fesur cynhwysiant ymfudwyr yng Nghymru. Nodwyd.
11. **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** - Adroddiad Blynyddol 2022-23. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn Cyfarfod Mis Mai y Cyngor yn dilyn yr etholiadau lleol.
12. **Un Llais Cymru** – Cylchlythyr Chwefror. Nodwyd.

6. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor

1. Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad pellach ar yr hawliad yswiriant yn ymwneud â difrod i'r ffens.
2. Nodwyd bod y gwaith gan y Cyngor Sir i gael gwared ar y coed ynn heintiedig yng Nghae Idole wedi'i gwblhau.
3. Nodwyd bod gwaith yn parhau gyda staenio coed ar y meinciau Cymunedol. Cymeradwywyd y Cyng Richard John i wneud gwaith i wella'r ardal o amgylch mainc Pentrepoeth trwy glirio mwd a gosod cerrig yn eu lle.
4. Derbyniwyd tendrau ar gyfer cytundeb torri gwair 2022 fel a ganlyn:
 - Mark Lewis (Mark's Gardening Services) - £2,560
 - Wrenvale Landscapes and Nurseries - £3,520
 - Cyngor Sir Caerfyrddin - £6,119

Fel y cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, roedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi ystyried y tendrau ac wedi cymeradwyo'r gost isaf a dderbyniwyd.

7. Atgyweiriwr y Cyngor

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr o waith ym mis Chwefror gyda chost o £420.00 yn cael ei gymeradwyo.

8. Digwyddiadau Cymunedol 2022

Ystyriodd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl y gallai'r Cyngor eu trefnu yn ystod 2022, cytunwyd byddai cystadlaethau'n cael eu cynnal fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Ardd:
 - Llysiau i'w barnu ym mis Mehefin;
 - Blodau i'w beirniadu ym mis Gorffennaf
 - Cytunwyd gwobrau o £25.00 ar gyfer pob categori a £50.00 ar gyfer enillydd cyffredinol.
- Cystadleuaeth Bwgan Brain i'w beirniadu ar yr un pryd â'r Gerddi Blodau Cytunwyd gwobrau 1af, 2il a 3ydd fel £25, £20 a £10

Adroddodd y Clerc fod cyfarfod wedi ei gynnal y noson honno rhwng Cadeirydd a Is-Gadeirydd y Cyngor a Chadeirydd, Is-Gadeirydd a Thrysorydd Pwyllgor y Neuadd. Cytunwyd y dylid cynnal digwyddiad i nodi'r Jiwbilî Platinwm ar ddydd Sadwrn 4ydd Mehefin gyda pharti stryd ym Maes Parcio'r Neuadd gydag adloniant yn ystod y dydd a gyda'r nos.

Rhoddir tocyn i cofio am y digwyddiad i bob plentyn dan 11 oed. Bydd y Clerc yn wneud ymholiadau gyda'r Bathdy Brenhinol. Cytunwyd i wneud cais am grant ar gyfer y costau tebygol, ond cytunodd y Cyngor i ryddhau £1,500 ar gyfer y digwyddiad o'r arian wrth gefn pe bai hynny'n angenrheidiol.

9. Cynllunio

1. **PL/03507** - Newid atig arfaethedig gyda 4 ffenestr dormer newydd i ddarparu 2 ystafell wely / ystafell ymolchi a chwprdd dillad cerdded i mewn gyda mân

newid i'r cynllun presennol er mwyn addasu'r grisiau i'r atig - Brodawel, Llaingotten, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA31 2LY. Dim gwrthwynebiadau.

- PL/03516** - Gosod Cwt Bugail i'w ddefnyddio fel Uned Dwristiaeth ar dir ar Fferm Ystrad Fach. Newid defnydd tir amaethyddol i Dwristiaeth, ynghyd â'r holl waith cysylltiedig arall - Fferm Ystradfach, Llandyfaelog, Cydweli, SA17 5NY. Dim gwrthwynebiadau.

10. Ceisiadau am gymorth ariannol

- Ambiwllans Awyr Cymru** – Cytunwyd ar gyfraniad o £50.00.
- Foothold Cymru** - Dim cyfraniad.
- Marie Curie** - Cytunwyd ar gyfraniad o £50.00.
- Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Canser** - Cytunwyd ar gyfraniad o £50.00.
- Eisteddfod Gerddorol Rynglwadol Llangollen** - Dim cyfraniad.

11. Cyfrifon

Cytunwyd y taliadau canlynol

1.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Chwefror a costau	£624.78	£26.00 £7.00 £11.70 £22.69	£692.17	£126.20	£0.00	£565.97

- | | | |
|---|----------------|--------------------------------------|
| 3. M Gibbard | £100.00 | Arosfan bysiau Croesyceiliog bus |
| 4. Michael Leefe | £420.00 | Atgyweiriwr Chwefror- gweler eitem 7 |
| 5. Ambiwllans Awyr Cymru | £50.00 | Rhodd – gweler eitem 10.1 |
| 6. Marie Curie | £50.00 | Rhodd – gweler eitem 10.3 |
| 7. Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Canser | £50.00 | Rhodd – gweler eitem 10.4 |

12. Materion arall a godwyd gan aelodau

- Roedd y Clerc wedi rhoi gwybod i'r Cyngor Sir bod dŵr yn cronni ar hyd Cwmale.
- Roedd y Clerc wedi rhoi gwybod i'r Cyngor Sir bod dŵr yn cronni rhwng Bryngors Isaf a Garthowen.
- Roedd y Clerc wedi derbyn pryderon am y cwrp isel ar ochr Tir Gof cyffordd Llandyfaelog oherwydd ei fod yn anodd ei weld yn y tywyllwch. Roedd wedi adrodd hyn i'r Cyngor Sir i'w ystyried.
- Nodwyd tipio anghyfreithlon ger Sgwar Bryncochbach.
- Bydd y Clerc yn adrodd am gyflwr gwael wyneb y ffordd yng Nghroesyceiliog ac Ysgol Bro Myrddin i'r Cyngor Sir.
- Nodwyd bod y bin yn Nhir Gof wedi'i lenwi'n ddiweddar â blychau miniog gan gynnwys nodwyddau.

Cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor Nos Iau 7fed Ebrill 2022.